**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion Cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 9 Mai 2016 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10 y bore.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cyng. P R Lewis (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Everett (Clerc a Swyddog Monitro); R Fairhead ac R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G W Griffiths (Rheolwr Hyfforddi a Datblygu); G Brandrick (Rheolwr Safonau Proffesiynol a Gwasanaeth); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau); S Barry (Swyddfa Archwilio Cymru).

YMDDIHEURIADAU

| | |
|---|---|
| Y Cyng. M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. T A Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. R O Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| S A Smith | Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim

2 RHYBUDD O FATERION BRYS

2.1 Dim

3 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 8 CHWEFROR 2016

3.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

3.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

4 MATERION YN CODI

4.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5 ADRODDIAD CYNNYDD GWEITHGOR Y CYNLLUN GWELLA

5.1 Rhoddodd y DBST gyflwyniad i grynhoi'r trafodaethau diweddar yng nghyfarfodydd Gweithgor y Cynllun Gwella. Cyfarfu'r Gweithgor bedair gwaith i ddatblygu amcanion gwella a llesiant ar gyfer 2017/18.

5.2 Ar ôl ystyried yr arbedion a'r gwelliannau i wasanaethau a gafwyd eisoes, a'r prosiectau a'r pwysau y cytunwyd eu bod yn wynebu GTAGC, cydnabuwyd y bydd angen cymryd camau i helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy oherwydd y bydd bwlch o £1.7 miliwn yn y gyllideb erbyn 2018/19 a bod y cronfeydd ariannol yn lleihau.

5.3 Yn dilyn trafodaethau hirfaith a manwl, teimlai aelodau Gweithgor y Cynllun Gwella na fyddai'r amcan gwella presennol i rewi'r gyllideb yn bosibl. Er eu bod yn cydymdeimlo ac yn ymwybodol iawn o'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus, roedd yr aelodau wedi bod yn meddwl am bwysau costau anochel y bydd yn rhaid i'r ATAGC eu hwynebu dros y tair blynedd nesaf oherwydd materion fel chwyddiant prisiau a chyflogau, ac yn arbennig y ffaith fod y llywodraeth yn newid y polisi ynglŷn â phensiynau.

5.4 Er mwyn datrys mater y gyllideb, roedd aelodau Gweithgor y Cynllun Gwella'n argymell bod yr Awdurdod yn defnyddio cyfuniad o gronfeydd ariannol, cynyddu'r cyfraniadau gan yr awdurdodau cyfansoddol ac yn gwneud gostyngiadau i wasanaethau; byddai'r strategaeth dair blynedd newydd hon gyda'r Awdurdod hyd at 2019/20, a byddai'n cynnwys cadw cyllideb wedi'i rhewi yn y ddwy flynedd ddiwethaf o'r tair blynedd hynny.

5.5 Rhoddodd y Cyng. McGuill sicrwydd i'r aelodau fod Gweithgor y Cynllun Gwella wedi mynd ati'n ofalus i ystyried sawl opsiwn ar gyfer arbed arian gan gynnwys gwahanol awgrymiadau am ffyrdd i leihau gwasanaethau. Ystyriwyd hefyd effaith y cynnydd yn y cyfraniadau ar yr awdurdodau lleol, ond teimlid mai dyma'r opsiwn 'lleiaf niweidiol' yn yr amgylchiadau presennol; cafodd y teimladau hyn eu hadleisio gan y Cadeirydd. Atgoffwyd y rhai a oedd yno'n bresennol fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi rhewi ei gyllideb am y chwe blynedd ddiwethaf ac eithrio yn 2015-16 pan fu cynnydd o 16c y pen o'r boblogaeth. Roeddent felly'n teimlo y gallai'r Awdurdod gyfiawnhau cynyddu symiau'r cyfraniad am un flwyddyn. Cydnabuwyd y bydd angen o hyd i leihau gwasanaethau er mwyn gwneud yr arbedion angenrheidiol erbyn 2019/20, ond ni fyddai'r rhain mor galed ag a fyddent heb gytuno ar y cynnydd yn y cyfraniadau.

5.6 Nodwyd bod Gweithgor y Cynllun Gwella'n argymell bod y tri amcan gwella presennol arall yn aros ac y dylent barhau i'r flwyddyn ariannol nesaf; ac roeddent yn argymell y dylid newid amcan gwella 2 fel ei fod yn darllen fel a ganlyn:

> Bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu strategaeth ariannol dair blynedd sy'n cyfuno'r defnydd o gronfeydd wrth gefn, cynnydd yn y cyfraniadau ariannol a lleihau gwasanaethau.

5.7 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi hynt Gweithgor y Cynllun Gwella; a**

**(ii) cymeradwyo'r pedwar amcan yn y rhestr isod i'w hystyried gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2016.**

1. Cynorthwyo i gadw phobl a chymunedau'n ddiogel drwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi.
2. (NEWYDD) Bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu strategaeth ariannol dair blynedd sy'n cyfuno'r defnydd o gronfeydd wrth gefn, cynnydd yn y cyfraniadau ariannol a lleihau gwasanaethau.
3. Bydd yr Awdurdod yn ail-falansio'i adnoddau i gyfateb i risg. Bydd yn gweithredu model newydd o ddarparu adnoddau sy'n sicrhau bod o leiaf 20 o griwiau tân wedi'u lleoli'n strategol yng Ngogledd Cymru ar gael ar adegau o risg cymharol is, a bod o leiaf 30 ar gael ar adegau o risg cymharol uwch.
4. Bydd yr Awdurdod yn ymchwilio i gyfleoedd i amrywio rôl y diffoddwr tân ac i gynnig gwasanaethau ychwanegol i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.

6 CADERNID ARIANNOL

6.1 Cyflwynwyd Steve Barry o Swyddfa Archwilio Cymru gan y DBST, a chyflwynodd Mr Barry yr asesiad o gadernid ariannol yr Awdurdod i'r Aelodau.

6.2 Esboniodd Mr Barry fod y gwaith wedi cael ei wneud yn yr holl awdurdodau lleol ac ATAau yng Nghymru. Cynhaliwyd yr asesiad yn ystod y cyfnod rhwng Mai a Hydref 2015. Roedd ffocws y gwaith ar gyflawni cynlluniau arbedion 2014-15 a chyfnod cynllunio ariannol 2015-16, ac roedd yn canolbwyntio ar ateb y cwestiwn canlynol: 'A yw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn rheoli gostyngiadau i'r gyllideb yn effeithiol er mwyn sicrhau cadernid ariannol?'.

6.3 Roedd Mr Barry a'i gydweithiwr wedi cael eu bodloni â threfniadau ariannol yr Awdurdod mewn perthynas â chynllunio ariannol, gwireddu mewn perthynas â'r cynllun a chryfder y rheolaeth ariannol a'r llywodraethiad; hefyd â rôl effeithiol yr Aelodau'n monitro'r gyllideb ac yn craffu arni.

6.4 Roedd yr asesiad yn dweud bod trefniadau'r Awdurdod i sicrhau cadernid ariannol yn iawn, o ran y canlynol:

- mae'r Awdurdod wedi lleihau gwariant wyth y cant o gymharu â 2011-12, ac mae lefelau'r cronfeydd wrth gefn yn codi;
- mae'r gwaith cynllunio ariannol yn cael ei gefnogi gan strategaeth ar gyfer y gyllideb ynghyd â dealltwriaeth o'r prif risgiau a'r heriau;
- caiff rheolaeth ariannol ei gefnogi drwy fonitro a rhagweld y gyllideb yn effeithiol, ac mae gan yr Awdurdod hanes da o reoli cyllidebau;
- mae'r llywodraethiad ariannol yn effeithiol ac mae'n gael ei gefnogi gan her glir gan aelodau'r Awdurdod, adrodd cywir ac ymrwymiad ar lefel uchel.

6.5 Roedd yr Aelodau'n falch iawn o nodi'r asesiad cadarnhaol. Tynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd cael strategaeth ariannol yn ei lle, a nodwyd y byddai'r Awdurdod yn sydyn iawn yn cael ei ystyried yn risg uchel heb strategaeth o'r fath.

6.6 **PENDERFYNWYD croesawu'r asesiad, a nodi'r wybodaeth a oedd yn yr adroddiad.**

7 CYNLLUN TREIALU CYD-YMATEB

7.1 Rhoddodd y PSTC Fairhead yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am hynt a chanfyddiadau cychwynnol y cynllun treialu cyd-ymateb sy'n cael ei gynnal gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC).

7.2 Mae GTAGC ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGAC) wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd ers Awst 2015 i ddatblygu'r egwyddorion o ran sut y byddai'r cynllun treialu'n gweithredu yng Ngogledd Cymru ac i hyfforddi unigolion i wneud y gwaith. Mae staff o chwech o orsafoedd ledled y Gogledd yn rhan o'r cynllun treialu a ddechreuodd ar 11 Ionawr.

7.3 Nodwyd mai'r sefyllfa rhwng 11 Ionawr a 31 Mawrth 2016 oedd bod GTAGC wedi cael 68 o geisiadau gan YGAC am gyd-ymateb i argyfyngau meddygol. Hyd yma, mae GTAGC wedi mynd at gyfanswm o 23 o ddigwyddiadau. Mae YGAC wedi ystyried bod y canlyniad i'r cleifion yn y 23 o ddigwyddiadau yn eithriadol o dda, gyda 12 o'r anafusion yn cael eu trin a naill ai'n cael eu rhyddhau yn y fan a'r lle neu'n cael eu cludo i'r ysbyty. Nodwyd mai'r rhesymau pam nad oedd GTAGC wedi mynd oedd nad oedd criw ar gael, bod y digwyddiad y tu allan i'r ardal y cytunwyd arni ymlaen llawn neu bod criwiau wedi'u tynnu o ddyletswydd gan YGAC.

7.4 I ymateb i gwestiwn gan un o'r aelodau am ddyfodol y gwaith hwn, esboniwyd mai Cyd-Gyngor yr NJC oedd wedi cychwyn y cynllun treialu ac unwaith y bydd wedi dod i ben caiff ei lwyddiant ei werthuso. Cadarnhawyd bod adborth cadarnhaol wedi dod, yng Ngogledd Cymru, gan y rhai sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun peilot; cynhelir cyfarfodydd misol gyda'r uwch reolwyr i drafod unrhyw faterion, a gwnaed gwelliannau yn ystod y cynllun treialu. Nodwyd hefyd bod y cynllun treialu wedi bod yn gadarnhaol o ran gweithio ar y cyd ag YGAC.

7.5 Roedd y Cyng. Lowe yn ystyried ei fod yn adroddiad calonogol ac roedd yr holl Aelodau'n dymuno nodi eu gwerthfawrogiad a'u diolch i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y cynllun treialu.

7.6 **PENDERFYNWYD croesawu a nodi'r wybodaeth a'r cynnydd a wnaed gan GTAGC wrth ddatblygu'r cynllun treialu cyd-ymateb a'r canlyniadau cadarnhaol a gafwyd drwy ymyrraeth GTAGC i 52% o'r anafusion.**

8 CYLLIDEB YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB 2015-16 PROSIECTAU ATEGOL – DIWEDDARIAD YN DILYN Y 12 MIS CYNTAF

8.1 Cyflwynodd y PSTC Fairhead yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am effeithiau penderfyniadau'r Awdurdod i roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau arbenigol achub â rhaffau ac achub anifeiliaid mawr, a'r trefniadau newydd ar gyfer galwadau sy'n dod gan larymau tân awtomatig.

8.2 Cyflwynwyd y trefniadau hyn ar 1 Ebrill 2015, a nodwyd bod y Gwasanaeth wedi cael un alwad yn gofyn iddo achub â rhaffau ac 16 galwad yn gofyn iddo achub anifeiliaid mawr; o'r galwadau hyn, dim ond unwaith yr aethpwyd allan, i achub anifail mawr.

8.3 O ran y larymau tân awtomatig, cafwyd 1303 o alwadau ac nid oedd y Gwasanaeth wedi mynd at 1219 o'r galwadau hyn. Gellir rhannu'r arbedion a ddaw i'r Awdurdod o beidio â mynd at y 1219 o larymau diangen gan larymau tân awtomatig yn arbedion arian parod, sef pryd y mae peidio â mynd at larymau tân awtomatig wedi arwain at beidio ag anfon criwiau'r system RDS felly arbediad cost uniongyrchol o £67,889.50, ac arbedion nad ydynt yn rhai arian parod, sef pryd nad yw criwiau amser cyflawn wedi cael eu hanfon at 519 o larymau tân awtomatig ac felly maent wedi gallu defnyddio eu hamser yn fwy effeithiol ar weithgareddau fel diogelwch cymunedol neu hyfforddiant.

8.4 Dywedodd y Cadeirydd bod y canlyniadau'n cefnogi'r penderfyniadau a wnaed gan yr Awdurdod, gyda'r fantais ychwanegol o fod wedi gwneud arbedion ariannol sylweddol. Roedd yr Aelodau hefyd yn dymuno diolch i'r staff yn y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd a fu'n delio â'r galwadau.

8.5 **PENDERFYNWYD nodi'r effaith gadarnhaol a gafwyd o ganlyniad i gyflwyno'r polisïau newydd.**

9 RHAGLEN CYSYLLTIADAU SYMUDOL Y GWASANAETHAU BRYS

9.1 Rhoddodd y DBST gyflwyniad i roi'r diweddaraf i'r aelodau am Raglen Cysylltiadau Symudol y Gwasanaethau Brys (ESMCP). Ymhob un o'r tri gwasanaeth brys yn y D.U., bydd darpariaeth cysylltiadau radio drwy gontract a gafodd ei gaffael yn genedlaethol yn dod i ben rhwng 2016 a 2020. Mae prosiect newydd yn ei le, o'r enw Rhaglen Cysylltiadau Symudol y Gwasanaethau Brys, wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth Ei Mawrhydi.

9.2 Amcanion y prosiect yw disodli gwasanaethau llais critigol Airwave drwy wella rhwydwaith symudol fasnachol i fod ar gael fel y daw contractau Airwave i ben ac i osgoi contractau unffurf, hirfaith a Menter Cyllid Preifat (PFI) drud.

9.3 Esboniodd y DBST fod tri prif lot caffael, sef partner cyflenwi, gwasanaethau defnyddwyr a gwasanaethau symudol. Mae'r contractau hyn wedi cael eu gosod erbyn hyn, ac mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen i gynllunio, dylunio ac adeiladu'r system newydd.

9.4 Roedd yr Aelodau wedi mynegi pryderon eisoes am y problemau signal yng Ngogledd Cymru, yr amserlen a chost y system. Esboniodd y DBST fod y broblem signal yn cael ei thrin drwy ddefnyddio EAS (gwasanaethau ardal estynedig) i wella'r signal pan fo angen ledled y Deyrnas Unedig. Rhagwelir y bydd y dyddiad gweithredu yng Nghymru tua diwedd y cyfnod o roi'r rhaglen ar waith, yn 2020.

9.5 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu grant tuag at gost y system bresennol ond mae'r trafodaethau'n mynd ymlaen ynglŷn â'r mater a fydd yn cyfrannu at gost y system newydd ai peidio; tua £8 miliwn fydd y gost o roi'r system newydd ar waith yng Nghymru.

9.6 Nodwyd bod system cyfathrebiadau radio newydd yn cael ei phrynu ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru, a gwneir hyn i gyd-fynd â gweithredu'r rhaglen genedlaethol.

9.7 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**